

Cynllun Corfforaethol 2013-17

Adolygwyd 2015-16



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau

RHAGAIR

Ledled y DU, mae cynghorau lleol yn wynebu heriau digynsail o ganlyniad i leihau cyllid gan y Llywodraeth a chynnydd yn y galw am wasanaethau hanfodol.

Yma yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried canfyddiadau adroddiad Comisiwn Williams sydd wedi nodi argymhellion i ad-drefnu awdurdodau lleol, gan leihau nifer y cynghorau a newid y ffordd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael cyngor i baratoi ar gyfer diffyg cyllid o oddeutu £49 miliwn rhwng nawr a 2018-19. Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion gwerth £11.2 miliwn yn 2015-16.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r awdurdod wedi adolygu ei Gynllun Corfforaethol ac wedi nodi ei ymrwymadau i gyflawni'r cynllun yn 2015-16. Roedd yr adolygiad yn cadarnhau, er bod y chwe blaenoriaeth ar gyfer gwella'n dal i fod yn berthnasol, bod angen addasu'r camau gweithredu allweddol dan bob blaenoriaeth er mwyn iddynt ganolbwyntio'n fwy ar y canlyniadau yr hoffem eu cyflawni er bod gennym lai o adnoddau.

Mae'r Cyngor yn dal i fod yn gwbl ymroddedig i wella gwasanaethau lleol a dod o hyd i ffyrdd newydd o'u darparu, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion a gwneud arbedion a fydd yn ein galluogi i baratoi cyfres o gyllidebau cytbwys.

Yn unol â chynigion trigolion lleol yn ystod ein hymgyngoriad diweddar ynglŷn â'r gyllideb i ganfod meysydd lle'r oedd dinasyddion yn teimlo y dylem flaenoriaethu ein gwariant, byddwn yn parhau i adolygu ac ad-drefnu'r gwasanaethau sy'n bodoli a chael gwared ar rai nad ydynt yn hanfodol.

Byddwn hefyd yn cydweithio â'n cymunedau lleol a'n dinasyddion i archwilio ffyrdd o'u cefnogi'n well i gymryd mwy o gyfrifoldeb am wella eu hiechyd a'u lles, a fydd yn ei dro'n lleihau'r galw am wasanaethau'r cyngor.

Rydym yn edrych ymlaen i gydweithio â'n dinasyddion a'n cymunedau, yn ogystal â phartneriaid lleol a chenedlaethol ar draws pob sector, i gyflawni'r cynllun hwn.



Y Cyngorydd Mel Nott
OBE



Darren Mepham
Y Prif Weithredwr

Cynnwys

RHAGAIR	2
CYFLWYNIAD	4
Y canlyniadau allweddol yr ydym yn dymuno eu cyflawni	4
Ein Blaenoriaethau ar gyfer Gwella yn 2013-17	5
Ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn	7
Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn	11
Sut y byddwn ni'n mesur ac yn monitro llwyddiant	14
Eich sylwadau	14
BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA UN – CYDWEITHIO I DDATBLYGU'R ECONOMI LEOL	15
BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA DAU – CYDWEITHIO I GODI UCHELGEISIAU A SBARDUNO CYFLAWNIAD ADDYSGOL	19
BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I'R AFAEL A PHROBLEMAU'N GYNNAR	23
BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA PEDWAR – CYDWEITHIO I HELPU POBL AGORED I NIWED I AROS YN ANNIBYNNOL	27
BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA PUMP – CYDWEITHIO I YMDRIN Â PHROBLEMAU IECHYD AC ANNOG FFYRDD IACH O FYW	30
BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA CHWECH – CYDWEITHIO I DDEFNYDDIO EIN HADNODDAU CYSTAL Â PHOSIBL	34
ATODIAD 1: DANGOSYDDION LLWYDDIANT	38
GEIRFA	46

CYFLWYNIAD

Ein gweledigaeth yw cydweithio i wella bywydau ledled y fwrdeistref sirol. Yng ngoleuni'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r heriau allweddol sy'n eu hwynebu, mae'r Cyngor wedi adolygu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella, ei ganlyniadau a'i gamau gweithredu a ddiffiniwyd ar gyfer pob blaenoriaeth i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy.

Mae'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig hwn yn cadarnhau ein chwe blaenoriaeth ar gyfer gwella yn y ddwy flynedd nesaf ac yn ailddiffinio'r camau gweithredu allweddol dan bob blaenoriaeth ar gyfer gwella, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Bydd ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a ddatblygwyd ac a adolygwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol, a Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr yn sicrhau ein bod yn gweithio ac yn gwario mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r cynllun hwn a'r pedwar canlyniad allweddol, a restrir isod, i'n dinasyddion.

Y canlyniadau allweddol yr ydym yn dymuno eu cyflawni

Erbyn 2017, hoffem weld y canlynol:

- **Pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn iachach.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl a'u teuluoedd yn cael eu grymuso ac yn cael y wybodaeth angenrheidiol i fyw bywydau iach ac annibynnol, a bod ein cymunedau'n gryfach, yn gydlynol ac yn gynaliadwy, gyda gwasanaethau ar gael i bawb mewn modd priodol.
- **Pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael budd o economi gryfach a mwy llewyrchus.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn gynyddol weithgar yn yr economi leol ac yn cefnogi busnesau lleol, a bod ein cymunedau yn gynaliadwy gyda'r seilwaith priodol i gefnogi twf busnes a chanol trefi ffyniannus.
- **Pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan ac yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial eu hunain.**
Byddai hyn yn golygu bod pobl yn ddinasyddion gweithgar yn ein cymdeithas, gyda'r sgiliau, y cymwysterau a'r hyder sydd eu hangen i fyw a gweithio, a bod cyfle cyfartal i bawb fel y gall pobl gael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n gyfartal.
- **Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.**

Byddai hyn yn golygu bod pobl yn ymfalchïo yn y fwrdeistref sirol; eu cymunedau, y dreftadaeth a'r amgylchedd naturiol, a bod ein cymunedau'n lân ac yn ddiogel gydag amrywiaeth dda o weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau hamdden a thwristiaeth.

Ein Blaenoriaethau ar gyfer Gwella yn 2013-17

Rydym wedi cadw'r chwe blaenoriaeth ar gyfer gwella a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2013-17. Dyma'r pethau y mae dinasyddion wedi dweud wrthym sydd bwysicaf:

Cydweithio i
ddatblygu'r economi
leol

Cydweithio i godi
uchelgeisiau a gwella
cyrhaeddiad addysgol

Gweithio gyda phlant
a theuluoedd i fynd i'r
afael â phroblemau'n
gynnar

Cydweithio i helpu
pobl agored i niwed i
aros yn annibynnol

Cydweithio i ymdrin â
phroblemau iechyd ac
annog ffyrdd iach o
fyw

Cydweithio i
ddefnyddio ein
hadnoddau yn y
ffordd orau bosibl

Y chwe blaenoriaeth hyn yw ein hamcanion ar gyfer gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae prif ran y Cynllun Corfforaethol hwn yn amlinellu pam mae pob un o'r blaenoriaethau hyn yn bwysig, yr hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni, a sut y bydd llwyddiant yn edrych.

Ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn

Mae'r heriau canlynol wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwella a ddewiswyd gennym ac ar ein dull o weithio i'w cyflawni.

Tuedd economaidd

Mae'r dangosyddion allweddol yn dangos bod rhai agweddau ar yr economi yn y fwrdeistref sirol wedi gwella ychydig bach. Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014, cododd cyfanswm cyfradd cyflogaeth pobl o oed gweithio (16-64 mlwydd oed) yn y fwrdeistref sirol o 68.9% i 72.1%. Yr hyn sy'n rhoi pleser arbennig i ni yw bod cyfradd cyflogaeth pobl ifanc (16-24 mlwydd oed) wedi cynyddu o 47.1% i 50.1% – mae'r ddwy gyfradd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Hefyd, gostyngodd nifer y bobl yn y sir sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith i 2.2% yn 2014, sydd bron mor isel â'r 2.0% yn 2008, cyn yr argyfwng ariannol byd-eang.

Mae data dros dro'n dynodi bod ein GYG (gwerth ychwanegol gros, sy'n mesur maint yr economi) wedi cynyddu 1.6% yn 2013 i £15,593 y pen, ac mae'r ffigur diweddaraf sydd ar gael ar gyfer incwm aelwydydd crynswth i'w wario, sy'n mesur incwm gwario, hefyd yn dangos cynnydd i £14,122. Mae'r ddau ffigur hyn yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae'n destun pryder, fodd bynnag, bod canran y plant dan 16 oed sy'n byw ar aelwydydd lle nad oes unrhyw un mewn cyflogaeth wedi cynyddu o 17.5% i 20%, a chanran y plant sy'n byw ar aelwydydd ag incwm isel (is na 60% o'r canolrif) wedi cynyddu o 21% i 22.4%. Mae'r ddau ganlyniad hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru.

Newidiadau yn y boblogaeth

Mae ein poblogaeth yn newid drwy'r amser. Ar hyn o bryd, mae gennym ychydig dros 140,480 o ddinasyddion a rhagfynegir y bydd hyn yn cyrraedd 151,023 erbyn 2036. Mae'n debygol y bydd mudo net oddeutu 400 o bobl erbyn y dyddiad hwn a disgwylir i'r bobl hyn ddod o rannau eraill o'r DU.

Mae cyfradd twf poblogaeth yn y fwrdeistref sirol yn arafu; mae rhagfynegiadau'n dangos gostyngiad yn y gyfradd geni yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r un rhagfynegiadau'n dangos cynnydd yn nisgwylid oes ein dinasyddion – gan godi o'r cyfartaledd o 79.7 mlynedd yn 2011 i 82.9 mlynedd erbyn 2036. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd cyfran uwch o bobl hŷn yn yr ardal, ac y bydd maint y boblogaeth o oed gweithio'n gostwng. Mae'r Cyngor a phartneriaid yn y sector iechyd a'r trydydd sector yn cydweithio i ddod o hyd i ffyrdd arloesol a hyblyg o ddarparu gwasanaethau yng ngoleuni'r cynnydd hwn yn y galw, i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio.

Heriau o ran iechyd

Gwyddom fod rhai agweddau ar ffyrdd o fyw ein dinasyddion yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles hirdymor. Mae ein cyfraddau goryfed wedi gostwng, ond maent yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gostyngodd canran yr oedolion sy'n ymysgu yn 2013 i 22% (o 23% yn 2012), ond mae'n dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 21%. Ymwelodd mwy o bobl â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden i wneud ymarfer corff – cynnydd o 8,914 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2012-13 i 9,588 yn 2013-14, ac mae canran y boblogaeth a ystyrir dros bwysau neu'n ordeu yr un faint â chyfartaledd Cymru, sef 58%. Mae'r ffigurau hyn yn galonogol, ond mae lle i welliant pellach o hyd.

Mae llawer o ddangosyddion yn berthnasol i'r fwrdeistref sirol yn ei chyfanrwydd, ond pan fyddwn yn archwilio ar lefel ddaearyddol is, gallwn weld gwahaniaeth sylweddol ymysg ein wardiau. Oni chymerir camau bydd materion iechyd ac anghydraddoldebau, a'u heffeithiau cysylltiedig ehangach, yn parhau a gall eu heffeithiau niweidiol beri mwy o niwed i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid i helpu dinasyddion i fanteisio ar amryw o gynlluniau a rhaglenni i'w helpu i fyw'n iach. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rheini sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, er mwyn i ni lwyddo yn yr her hon, mae'n rhaid i unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac ymrwymo i ffyrdd iachach o fyw.

Cyflawniad addysgol

Mae addysg dda'n hanfodol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau i lwyddo yn y dyfodol. Mae angen i ni wella lefelau cyrhaeddiad disgyblion ledled y fwrdeistref sirol. Roedd y lefelau cyrhaeddiad a gyflawnodd disgyblion ym mlwyddyn academaidd 2013-14 yn dangos gwelliannau o'i gymharu â'r ffigurau blaenorol; er enghraifft, gwelodd canran y plant a gyflawnodd lefelau disgwylidig rhifedd a llythrennedd yn 11 oed i 82.6%, i fyny o 80.6%, a chynyddodd canran y disgyblion a gafodd bum TGAU gradd A*-C (gan gynnwys Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf a mathemateg) o 52.3% i 54.2% dros yr un cyfnod, ond mae angen i'r rhain fynd ymhellach. Erbyn mis Medi 2017, hoffem weld 67% o ddisgyblion yn cael pum TGAU gradd A*-C. Mae angen i rieni a gwarcheidwaid ymwneud yn llawn â dysg eu plant os ydym am weld gwelliannau pellach mewn cyflawniad addysgol.

Mae lefel uchel o bresenoldeb yn yr ysgol yn hanfodol er mwyn i blant ffynnu'n academaidd, felly mae arnom angen i rieni a gwarcheidwaid sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Arhosodd cyfraddau presenoldeb ysgolion ar 93.49% ar gyfer ysgolion cynradd, ond cododd y ffigur mewn ysgolion uwchradd i 92.46%. Mae'r ddau ffigur yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.

Blaenoriaethau cenedlaethol a dyletswyddau statudol

Y Rhaglen Lywodraethu yw polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae'n pennu blaenoriaethau cenedlaethol a chynigion ar gyfer gweithredu, a bydd gan bob awdurdod lleol ran bwysig i'w chwarae er mwyn eu cyflawni.

Mae gennym ddyletswydd statudol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i sicrhau, ymysg pethau eraill, bod ein blaenoriaethau'n sicrhau gwelliannau i ansawdd gwasanaethau a'r graddau y maent ar gael, i effeithlonrwydd a thegwch, ac mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy'r ardal.

Y gwasanaethau presennol

Mae'r Cyngor yn darparu neu'n comisiynu amrywiaeth eang o wasanaethau. Mae rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n statudol, sy'n golygu bod gennym ddyletswydd i'w darparu, ac rydym yn darparu rhai gwasanaethau am eu bod yn cyfrannu at y canlyniadau cyffredinol yr ydym am eu cyflawni i'n dinasyddion.

Gyda heriau'r cynnydd mewn galw, disgwyliadau uwch a phrinder adnoddau, rydym yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio a sut yr ydym yn comisiynu gwasanaethau ac yn eu darparu. Drwy gydol 2015, byddwn yn parhau i adolygu ac ad-drefnu'r gwasanaethau statudol sy'n bodoli a chael gwared ar rai nad ydynt yn hanfodol, fel yr awgrymwyd gan ein dinasyddion yn ystod y broses o ymgynghori ynglŷn â'r gyllideb. Mae gan ein trigolion, ein cymunedau lleol a'n partneriaid i gyd ran allweddol i'w chwarae yn y broses o lunio'r gwasanaethau gorau posibl a helpu i'w darparu. Mae gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarparwn ar hyn o bryd ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.gov.uk.

Cefnogir pob un o'n gweithgareddau gan ein gwasanaethau corfforaethol, sy'n cynnwys Cyllid, Adnoddau Dynol, TGCh, Eiddo, Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a'r iaith Gymraeg

Cydraddoldeb a chynaliadwyedd yw'r egwyddorion arweiniol sy'n tanategu popeth a wnawn. Drwy'r amser, rydym yn ceisio deall cyfansoddiad ein poblogaeth ac asesu effaith ein polisiau a'n cynlluniau ar bawb, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb megis hil/ethnigrwydd, rhyw, oed, anabledd, ffydd/cred grefyddol, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-15 a'i gynllun gweithredu yn sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i brif ffyrddio yng ngwaith y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dinasyddion a chymunedau fel bod cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol, yn cael ansawdd bywyd gwell. Hoffem weld datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwaith ac wedi'i integreiddio mewn trefniadau darparu gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus, y byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Bydd gwaith i adolygu a diweddarau Cynllun Iaith Gymraeg 2012-15 presennol y Cyngor yn dechrau yn haf 2015. Bydd yn

amlinellu sut y byddwn yn datblygu gwasanaethau'r Cyngor yn 2016-20 fel eu bod yn cyflawni ein hymrwymiaadau i'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, yn unol ag uchelgeisiau lleol a chenedlaethol.

Safbwyntiau dinasyddion

Rydym bob amser yn ceisio deall anghenion y gymuned a sut y gellid diwallu'r anghenion hynny. I wneud hyn, rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ganfod safbwyntiau ein dinasyddion.

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd rheolaidd er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaeth ein helpu drwy roi adborth ar ein gwasanaethau, yn aml drwy gydweithio â sefydliadau partner o'r Trydydd Sector a phartneriaid eraill megis Age Cymru a Rhoi Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym yn defnyddio holiaduron a thrafodaethau wyneb yn wyneb â rhwydweithiau a grwpiau megis y Fforwm Busnes, y Gymdeithas Twristiaid a'r Fforwm Gofalwyr ac â grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, megis y grŵp 'Dweud eich Dweud' a'r Fforwm Rhieni ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae aelodau etholedig hefyd yn ymweld â'n lleoliadau preswyl a dydd i blant ac oedolion i archwilio ansawdd y gofal a siarad â phreswylwyr.

Roedd yr ymgynghoriadau penodol a gynhaliwyd eleni'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau, o hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol i newid darpariaeth i sefydlu canolfannau adnoddau dysgu i ddisgyblion ag awtistiaeth. Bu pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn cymryd rhan mewn sesiynau i edrych ar ailfodelu gwasanaethau dydd ac mae model integredig newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Tîm Cymorth Anableddau Dysgu yn y Gymuned.

Rydym yn defnyddio arolygon y Panel Dinasyddion bob blwyddyn i geisio safbwyntiau am ein gwasanaethau. Yn fwyaf diweddar, mae'r Panel Dinasyddion wedi sôn am gysylltu â'r Cyngor; teledu cylch cyfyng; digonoldeb chwarae; hawliau tramwy a thafarnau. Rydym hefyd yn aros am ganlyniadau ein hymgyngoriadau am yr adolygiad o gludiant dysgwyr a'r cynllun trafndiaeth lleol.

Mae safbwyntiau ein dinasyddion a gasglwyd drwy gyfrwng yr holl ddulliau hyn wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol.

Mae tudalen yr ymgynghoriad ar ein gwefan www.bridgend.gov.uk yn rhoi gwybodaeth am ymgynghoriadau o'r gorffennol, cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau presennol a sut y gallwch wneud cais i ymuno â'r panel dinasyddion. Rydym yn croesawu adborth parhaus gan ddinasyddion unrhyw bryd ar ein gwefan (www.bridgend.gov.uk), drwy e-bost (talktous@bridgend.gov.uk), ar ein llinell gymorth gwasanaeth i gwsmeriaid 24-awr (01656 643643) ac ar gyfryngau cymdeithasol (@BridgendCBC).

Ymgynghoriad y Gyllideb

Ym mis Hydref 2014, roedd ymgynghoriad Adolygiad Cyllideb 2015 yn ceisio cael safbwyntiau gan ddinasyddion ynglŷn â sut a ble y gallai'r Cyngor sicrhau gostyngiad o £11.2 miliwn yng nghyllideb 2015-16. Hwn oedd yr ymgynghoriad pwysicaf a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â cheisio safbwyntiau ar ein gwefan, drwy e-bost, drwy'r post a dros y ffôn, defnyddiwyd dau ddull newydd gennym – ymarfer efelychu'r gyllideb ar-lein a thrafodaeth â'r Prif Weithredwr ar Twitter i annog a galluogi cymaint â phosibl o'n dinasyddion i gymryd rhan. Amlinellir rhai o'r canfyddiadau allweddol isod.

Roedd y trosolwg o'r gyllideb yn edrych yn uniongyrchol ar wyth maes gwasanaeth: ysgolion; gwasanaethau i blant (heblaw am ysgolion); gofal cymdeithasol i oedolion; digwyddiadau corfforaethol; chwaraeon, chwarae a lles corfforol; cymunedau; adnoddau a gwasanaethau cyfreithiol a rheoleiddio. Dangosodd data'r efelychydd cyllideb fod y cyhoedd yn meddwl y dylid lleihau cyllideb pob maes gwasanaeth, ac mai ysgolion ddylai gael y gostyngiad cyllid isaf, sef 3 y cant, ac mai 'digwyddiadau corfforaethol' ddylai gael y gostyngiad uchaf, sef 30 y cant.

Y tri chynnig ar gyfer 'sut i gynhyrchu mwy o arian' a gafodd dros 50 y cant o atebion 'ie' oedd:

- Cyflwyno tâl am reoli plâu (58 y cant);
- Cyflwyno tâl parcio i ddeiliaid Bathodynau Glas yn ein meysydd parcio oddi ar strydoedd (58 y cant); a
- Chyflwyno tâl canrannol ar daliadau a wneir i'r Cyngor â cherdyn credyd (55 y cant).

Darparu llyfrgelloedd a gwasanaethau diwydiannol drwy ymddiriedolaeth ddielw oedd yr unig gynnis i arbed arian a gafodd fwy na 50 y cant o ymatebion 'ie', gyda 64 y cant.

Roedd mwy nag un o bob tri (36 y cant) yn credu y gallai trigolion helpu i leihau'r galw ar y Cyngor drwy gymryd mwy o gyfrifoldeb personol. Hefyd, mae atebwyr wedi annog darparu drwy gontractwyr allanol neu weithio gyda thrydydd partion pan fo hynny'n ddichonadwy o safbwynt ariannol.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyllideb wedi arwain yr adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2015-16 i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar wella'r gwasanaethau pwysicaf i'n dinasyddion.

Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn

Strategaeth ariannol gref

Rydym wedi mabwysiadu dull integredig wrth ddatblygu ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) 2015 - 2019 a'r Cynllun Corfforaethol hwn i sicrhau ein bod yn dyrannu ein hadnoddau mewn ffordd sydd wedi'i chysylltu'n agos â'n blaenoriaethau ar gyfer

gwella. Mae cysylltiadau hefyd rhwng y SATC a strategaethau adnoddau mewnol eraill megis y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), y Cynllun Rheoli Asedau a Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr; gall y rhain i gyd gyfrannu at ein helpu i ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae'r SATC ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.gov.uk.

Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol heriol iawn. Daw tuag 80% o'n harian o grantiau Llywodraeth Cymru, a'r gweddill yn bennaf o'r dreth gyngor a ffioedd a thaliadau. Rydym yn parhau i wynebu galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r prif bwysau ar y gyllideb yn cynnwys:

- newidiadau demograffig, gan gynnwys cynnydd yn nifer y bobl hŷn, a chynnydd yn nifer y bobl ifanc ag anableddau cymhleth sy'n byw i fod yn oedolion;
- cynnydd yn nifer y plant agored i niwed y mae angen i'r Cyngor ofalu amdanynt;
- chwyddiant mewn prisiau; ac
- effaith bosibl polisïau cenedlaethol a deddfwriaeth newydd e.e. y Ddeddf Diwygio Lles, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a'r Ddeddf Tai (Cymru).

Mae'r toriad i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r pwysau ar y gyllideb, yn golygu y bydd rhaid i ni arbed tua £48.8 miliwn erbyn 2018-19 i sicrhau bod gennym gyllideb gytbwys. Rydym wedi datblygu cynlluniau arbedion gwerth tua £28.6 miliwn hyd yn hyn, ond mae angen i ni ddod o hyd i £20.2 miliwn arall. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amrywiaeth o fentrau gan gynnwys prosiectau cydweithredol, ail-drafod contractau, ailfodelu gwasanaethau, lleihau gwasanaethau i'r lleiafswm statudol a'r posibilrwydd o drosglwyddo gwasanaethau i sefydliadau partner. O ystyried maint y toriadau sydd eu hangen, mae'n anochel y ceir effaith ganlyniadol ar y gwasanaethau a ddarperir, ond bydd dros hanner yr £11.2 miliwn o arbedion sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2015-16 yn dod o ddefnyddio ein hadnoddau mewnol yn well, er enghraifft, drwy ailstrwythuro staff, ail-dendro contractau a moderneiddio ein hystâd ysgolion.

Cyfrifoldebau ac atebolrwydd sydd wedi'u diffinio'n glir

Yn y cyfnod hwn pan fo cyllidebau'n lleihau a'r galw am wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu, mae angen i ni reoli perfformiad yn fwy effeithiol nag erioed, gan fod hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- blaenoriaethu ein nodau a dyrannu ein hadnoddau prin yn effeithiol;
- sicrhau bod pawb yn glir am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ac yn atebol am ddarparu gwasanaethau a chynlluniau ariannol y Cyngor; a
- helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau i'n dinasyddion.

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ein helpu i gyflawni hyn. Mae'r fframwaith yn amlinellu egwyddorion, prosesau a gweithdrefnau rheoli perfformiad, gan sicrhau bod cysylltiad rhwng y gwasanaethau a ddarparwn a'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau. Mae'n nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am bob cam ym mhroses rheoli perfformiad y Cyngor, o gynllunio busnes a gwaith corfforaethol hyd at ddarparu gwasanaethau.

Cynlluniau Busnes Gwasanaethau/Cyfarwyddiaethau a Chynlluniau Unigol

Y Cynllun Corfforaethol yw ein cynllun lefel uchaf. Mae'n amlinellu ein gweledigaeth, y canlyniadau yr hoffem eu cyflawni a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella, ac yn diffinio ein hymrwymadau am y flwyddyn i ddod er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny. Darperir yr ymrwymadau yn y Cynllun Corfforaethol drwy gyfrwng camau gweithredu a mesurau penodol y manylir arnynt yng nghynllun busnes pob cyfarwyddiaeth/gwasanaeth ac yng nghynlluniau perfformiad aelodau staff unigol. Mae hyn yn sicrhau bod ein blaenoriaethau ar gyfer gwella wedi'u hymgorffori mewn darpariaeth ar bob lefel yn y sefydliad.

Gweithio gyda phartneriaid

Mae elfen gynyddol o gydweithio yn ein gwasanaethau. Mae hyn yn amrywio o weithio mewn partneriaeth i atal troseddu ac anhrefn i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd. Hefyd, mae gennym bartneriaid a gomisiynwyd ar ein rhan i ddarparu gwasanaethau, megis ein gwasanaethau hamdden neu wastraff. Bydd angen i ni symud tuag at fod yn sefydliad sydd â meddylfryd comisiynu cryfach gan ddefnyddio dealltwriaeth glir o anghenion y gymuned i ddatblygu datrysiadau ymarferol gyda phartneriaid a all ein helpu i weithredu mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon, i ddarparu gwell gwasanaethau i'n dinasyddion a chyflawni arbedion ariannol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn dod ag amrywiaeth o bartneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector at ei gilydd, gan gynnwys y Cyngor. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn cydweddu â Chynllun Partneriaeth Integredig Sengl y BGLI 'Sir Pen-y-bont Gyda'n Gilydd' i sicrhau ein bod yn cydweithio ar ganlyniadau cyffredin.

Mae ein dinasyddion yn bartneriaid pwysig i ni wrth ddarparu'r Cynllun hwn. Gall unigolion a theuluoedd wneud llawer i wneud gwahaniaeth i'w hiechyd a'u hamgylchiadau. Yn erbyn pob un o'r chwe blaenoriaeth ar gyfer gwella, rydym wedi awgrymu rhai camau y gall ein trigolion eu cymryd i wneud cyfraniad cadarnhaol, er enghraifft, drwy wirfoddoli yn eich cymuned. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-Bont ar Ogwr yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am bob agwedd ar wirfoddoli. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ei gwefan www.bavo.org.uk neu drwy ffonio 01656 810400.

Sut y byddwn ni'n mesur ac yn monitro llwyddiant

Mae'r Cynllun hwn wedi nodi nifer o 'ddangosyddion llwyddiant' sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (**Atodiad 1**), ac mae rhai o'r rhain yn fesurau meincnodi (a ddefnyddir i ddeall sut yr ydym yn perfformio o gymharu ag awdurdodau lleol eraill). Bwriad yr holl ddangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yw mesur llwyddiant ein gwaith ar y cyd â dinasyddion a phartneriaid – ni allwn eu cyflawni ar ein pennau ein hunain.

Mae gennym hefyd ddangosyddion eraill sy'n helpu i fesur ein perfformiad, a chaiff y rhain eu monitro drwy gydol y flwyddyn ar wahanol lefelau ar draws y sefydliad. Mae rhai o'r dangosyddion hynny'n fesurau a ddatblygwyd yn lleol ac mae eraill yn rhai cenedlaethol, gan gynnwys mesurau statudol y mae'n rhaid i ni eu casglu ac adrodd amdanynt i Lywodraeth Cymru.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, yn ogystal ag archwilwyr a chyrrff arolygu allanol, megis Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn, yn craffu ar ein perfformiad yn rheolaidd.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud ar y cyd yn erbyn y mesurau llwyddiant a dangosyddion perfformiad allweddol eraill. Rydym hefyd yn defnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu am ein perfformiad, megis Bwletinau arbennig a datganiadau i'r cyfryngau. Mae Adroddiadau Blynyddol y Cyngor ar gael ar ein gwefan, www.bridgend.gov.uk. Rydym yn adolygu'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys y mesurau llwyddiant, yn flynyddol.

Eich sylwadau

Rydym yn parhau i groesawu eich sylwadau am y Cynllun hwn. Ystyrir eich adborth yn ystod yr adolygiad blynyddol ac rydym yn falch o'i gael unrhyw bryd ar ein gwefan: www.bridgend.gov.uk, ar Twitter: [@BridgendCBC](https://twitter.com/BridgendCBC), drwy e-bost i improvement@bridgend.gov.uk neu'n ysgrifenedig i'r Tîm Gwella Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cwrt y Cigfrain, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3LP.

BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA UN – CYDWEITHIO I DDATBLYGU'R ECONOMI LEOL



ni oedd y 5^{ed} gymuned fwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae dros 1 o bob 5 plentyn yn y fwrdeistref sirol yn dal i fyw ar aelwyd incwm isel. Felly, mae angen i ni barhau i ddatblygu a thyfu'r economi leol a byddwn yn canolbwyntio ar greu swyddi, helpu busnesau lleol i ffynnu a sefydlu amodau i ddenu buddsoddiad i dyfu'r economi leol a gwella safon byw i'n holl ddinasyddion.

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ein dinasyddion wedi dweud wrthym mai'r economi leol yw'r maes pwysicaf i ni ganolbwyntio arno.

Yn 2013-14, gwelsom gynnydd yng nghanran y bobl o oed gweithio sydd nawr mewn gwaith, ac mae ein cyfraddau cyflogaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gwelsom hefyd ostyngiad sylweddol yng nghyfran ein pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r data cyflogaeth diweddaraf yn datgelu nad yw Cymru'n gwneud cystal â gweddill y DU.

Rydym yn defnyddio Gwerth Ychwanegol Crynswth fesul pen (GYC) i fesur cryfder yr economi leol. Er bod GYC Cymru wedi codi 3.4%, dim ond 1.6% y gwnaeth ein GYC ni dyfu yn 2013-14. Yn 2014, un o'n wardiau

Pa mor dda ydym ni'n llwyddo hyd yn hyn?

Drwy gydweithio, rydym wedi:

- cwblhau'r gwaith adfywio a gynlluniwyd yng nghanol trefi Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae Marina Porthcawl yn gwbl weithredol erbyn hyn;
- sicrhau cyllid allanol sylweddol ar gyfer rhaglenni buddsoddi newydd ym Mhorthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, a sicrhau cytundeb mewn egwyddor â Llywodraeth Cymru i gael cyllid ar gyfer safleoedd datblygu allweddol yng Nghwm Llynfi;
- cefnogi 25 o fusnesau lleol, 29 o ficrofentrau, 22 o fentrau cymdeithasol gan greu dros 110 o swyddi newydd drwy gyfrwng prosiectau â chyllid Ewropeaidd y llynedd;
- cefnogi 105 o bobl ddi-waith i gael cyflogaeth drwy gyfrwng y prosiect Gweithffyrdd;
- cefnogi Pencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn Prydain yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl, a ddenodd dros 43,000 o ymwelwyr, a ddarledwyd ar y teledu i dros 338 miliwn o aelwydydd ledled y byd ac a gynhyrchodd £6 miliwn i'r economi leol; a
- mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyd at 9,690 o gartrefi newydd a 120 hectar o dir i greu cyflogaeth yn y dyfodol.

Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Hoffem weld canol trefi, safleoedd busnes a rhwydweithiau trafndiaeth a chyfathrebu sy'n darparu ar gyfer anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr, yn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael sy'n amrywiol ac yn ddiogel yn y tymor hir.

Byddwn yn:

- parhau i roi prosiectau a rhaglenni adfywio allweddol ar waith i wella a datblygu ein heconomi;
- gwella'r cyfleoedd a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu gydol oes a sicrhau y gall y fwrdeistref sirol gystadlu ar lefel ranbarthol am swyddi, gan ddenu buddsoddiad pellach gan fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes a chefnogi entrepreneuriaid; a
- gweithio gyda darparwyr cludiant cyhoeddus a chymunedau i wella cysylltiadau cludiant, yn enwedig cludiant cyhoeddus.

Sut y gallwch chi gymryd rhan?

Gallwch helpu drwy:

- siopa'n lleol i gefnogi ein heconomi leol;
- i berchenogion busnes, sicrhau cadwyn gyflenwi leol, darparu cyfleoedd i bobl ifanc drwy gyfrwng prentisiaethau, a hysbysu sefydliadau dysgu am y sgiliau y bydd eu hangen arnoch yn y dyfodol;
- gwella eich ymroddiad i lanweithdra ac ailgylchu. Bobl blwyddyn, mae'r Cyngor yn gwario £1.2 miliwn yn cael gwared ar sbwriel oddi ar strydoedd a chadw ein strydoedd yn lân. Gallwch helpu drwy roi eich gwm cnoi ac eitemau dieisiau eraill yn y biniau ar y strydoedd neu drwy fynd â hwy adref i'w gwaredu'n briodol; a
- manteisio ar gyfleoedd dysgu i oedolion, gan gynnwys cyrsiau TGAU, a allai eich helpu chi, eich teulu a'ch ardal leol.

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo gyda'n gilydd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd:

- nifer y busnesau gweithredol yn cynyddu;
- nifer yr adeiladau gwag yng nghanol trefi yn gostwng;
- ein cyfraddau cyflogaeth a chyflogaeth ieuencid yn gwella o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol;
- cyfran ein poblogaeth 16-18 oed, yr hysbysir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn parhau i ostwng;
- canran y plant sy'n byw ar aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio yn gostwng;
- Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) fesul pen yn cynyddu;
- Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario fesul pen yn cynyddu (mesur yw hwn o lefel yr incwm gwario sydd ar gael i aelwydydd).
- cyfraddau llwyddiant Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cynyddu.

Ein hymrwymiaadau ar gyfer 2015-16

Byddwn yn parhau i adfywio ein canol trefi, yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd cyllid newydd ac yn annog buddsoddiadau newydd i helpu i roi hwb i'n heconomi leol, darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a denu mwy o ymwelwyr i'r fwrdeistref sirol.

Byddwn yn:

- datblygu cynigion a sicrhau cyllid i gyfnod nesaf y prosiectau adfywio trefol drwy gyfrwng Rhaglen Cydgyfeirio'r UE, hyd at 2020;
- parhau i weithredu cyfnod cyntaf nifer o brosiectau adfer a datblygu tir allweddol ym Maesteg a Chwm Llynfi;
- parhau i weithredu rhaglen adfywio gyfansawdd yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr;
- ail-werthuso dewisiadau datblygu i sicrhau adfywio ym Mhorthcawl;
- dechrau rhoi Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar waith gan weithio gyda chymunedau gwledig a phartneriaid er mwyn sicrhau cymunedau gwledig hunangynhaliol, mentrau gwledig amrywiol ac economïau gwledig ffyniannus;
- darparu cymorth â phwyslais i fusnesau a chefnogi mentrau cymdeithasol i'w helpu i fuddsoddi a chreu swyddi;
- ymgysylltu â phobl a chymunedau i ddeall eu hanghenion dysgu er mwyn comisiynu darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn modd sy'n diwallu eu hanghenion a gwella rhagolygon cyflogaeth;
- parhau i wella cysylltiadau trafniadaeth, cerdded a beicio rhwng y rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd a safleoedd cyflogaeth ac addysg gan gynnwys cynlluniau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl; a
- nodi a gweithredu gwelliannau ffisegol i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau beicio gan ddefnyddio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Llywodraeth Cymru a chyllid grant arall.

BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA DAU – CYDWEITHIO I GODI UCHELGEISIAU A SBARDUNO CYFLAWNIAD ADDYSGOL



Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym yn gwybod bod addysg dda'n helpu i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer pob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys ennill sgiliau ar gyfer cyflogaeth, gofalu am eu teuluoedd a chyfrannu at eu cymunedau.

Roedd lefelau cyrhaeddiad disgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2013-14 yn dangos gwelliannau o gymharu â'r ffigurau blaenorol: cododd canran y disgyblion sy'n cael pum TGAU gradd A*-C (gan gynnwys Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf a mathemateg) o 52.35% i 54.2%, sy'n agos at gyfartaledd Cymru. Gwellodd canran y plant sy'n cyflawni'r lefelau rhifedd a llythrennedd a ddisgwylir yn 11 oed o 82.6% i 86.2%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae angen i'r gwelliannau hyn fynd ymhellach gan fod sgorau'n dangos bod cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru wedi mynd yn bellach y tu ôl i weddill y DU – a'r byd – o ran darllen, mathemateg a gwyddoniaeth.

Rydym hefyd yn gwybod bod lefel uchel o bresenoldeb yn yr ysgol yn hanfodol er mwyn i blant ffynnu'n academiaidd. Er bod presenoldeb yn ein hysgolion uwchradd wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn pryderu bod ffigurau ysgolion cynradd ac uwchradd yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae bwch cyflawniad hefyd rhwng disgyblion sy'n dod o aelwydydd incwm isel a rhai nad ydynt.

Mae'n rhaid i'n hysgolion ddarparu'r amgylchedd cywir, y sgiliau, y gefnogaeth a'r awydd i lwyddo er mwyn i'n holl ddisgyblion ffynnu. Mae angen i'n cymunedau a'n rhieni hefyd ymwneud â dysg eu plant a sicrhau eu bod yn bresennol yn yr ysgol yn rheolaidd.

Pa mor dda ydym ni'n llwyddo hyd yn hyn?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon drwy:

- sicrhau gwelliant mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghyfnodau Allweddol Dau, Tri a Phedwar. Cynyddodd canran ein pobl ifanc a gyflawnodd o leiaf 5 TGAU Gradd A*-C neu gyfwerth gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg o 52.35% ym mlwyddyn academaidd 2012-13 i 54.2% ym mlwyddyn academaidd 2013-14;
- cyflawni arolygiadau Estyn da neu ragorol mewn 88% o'n hysgolion;
- darparu cymorth ac ymyraethau wedi'u targedu i ddisgyblion, a helpodd i leihau canran ein pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 ac y gwyddys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth o 6.4% i 3.7%;
- cyflawni gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion ysgol uwchradd, a chyflwyno rhaglen sylweddol o gamau gweithredu i gyflawni gwelliannau pellach mewn presenoldeb yn gyffredinol; a
- chwblhau'r Adolygiad Gweddnewid ar y cyd ar gyfer darpariaeth dysgu Ôl-16.

Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Hoffem sicrhau, drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant lleol, bod ein plant a'n pobl ifanc yn cyflawni gwelliannau i'w canlyniadau addysgol, yn ennill cymwysterau ac yn derbyn hyfforddiant.

Erbyn 2017, hoffem i bob ysgol fod yn gwella'n llawer cyflymach fel bod o leiaf dwy ran o dair o bobl ifanc yn cyflawni o leiaf pum TGAU Gradd A*-C neu gyfwerth, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Hoffem hefyd wella'r canlyniadau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 ac yn y cyfnod sylfaen, a lleihau'r bwlch llythrennedd a rhifedd rhwng plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant nad ydynt.

Byddwn yn:

- gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i helpu plant a phobl ifanc i wella eu sgiliau darllen, ysgrifennu a rhif fel bod ganddynt yr adnoddau priodol ar gyfer parhau i ddysgu ac ar gyfer y byd gwaith;
- gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd; a
- pharhau i wella'r amgylchedd dysgu drwy foderneiddio'r ystâd ysgolion.

Sut y gallwch chi gymryd rhan?

Gallwch helpu drwy:

- ymwneud â dysg eich plant, er enghraifft, drwy siarad ag athrawon a helpu eich plant i wneud eu gwaith cartref;
- sicrhau bod eich plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, gan fod absenoldeb yn gwneud gwahaniaeth i ba mor dda y mae plant yn dysgu ac yn ennill cymwysterau;
- annog plant a phobl ifanc i gael nod uchel a gweithio'n galed;
- gwirfoddoli yn eich ysgol leol;
- annog plant i ddefnyddio ein gwasanaethau llyfrgell lleol; a
- cheisio profiadau addysgol i'ch plant y tu allan i'r ysgol, megis chwaraeon neu ddigwyddiadau diwylliannol.

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo gyda'n gilydd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd:

- y rhan fwyaf o blant yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfrif at lefel o sgîl sydd ei angen i lwyddo mewn bywyd erbyn iddynt orffen eu haddysg gynradd;
- lefelau cyrhaeddiad disgyblion ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol yn cynyddu;
- pobl ifanc yn cyflawni'r cymwysterau a ddisgwylir ganddynt ar lefel TGAU;
- lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynyddu;
- y bwlch mewn perfformiad yn yr ysgol rhwng plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant nad ydynt yn lleihau;
- pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol yn mynd ymlaen i addysg bellach, yn dod o hyd i gyflogaeth neu'n derbyn rhyw fath o hyfforddiant; a
- phobl ifanc sy'n gadael addysg neu hyfforddiant ffurfiol yn gwneud hynny wedi cwblhau cymhwyster cymeradwy i sicrhau bod amrywiaeth eang o well cyfleoedd cyflogaeth ar gael iddynt.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2015-16

Hoffem sicrhau newid mawr yn y gyfradd gwelliant fel bod plant, erbyn mis Medi 2015, yn ddigonol lythrennog a rhifog ar ddiwedd eu haddysg gynradd, a bod o leiaf 60% o bobl ifanc yn cyflawni cymwysterau TGAU ar y lefel a ddisgwylir ganddynt.

Byddwn yn:

- defnyddio data i sicrhau bod gennym well dealltwriaeth o berfformiad unigolion a grwpiau o ddysgwyr, ac yn cynnig cymorth ychwanegol ar gam cynharach yn eu haddysg;
- cefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac anghenion disgyblion mwy galluog sydd ag angen mwy o gymorth i gyflawni eu potensial llawn;
- monitro effeithiolrwydd ysgolion a cheisio ei wella drwy gyfrwng Consortiwm Canol De Cymru;
- parhau i weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid;
- cefnogi ysgolion i sefydlu a defnyddio Hysbysiadau Cosb Sefydlog am absenoldeb o'r ysgol;
- rhoi strategaeth presenoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar waith;
- darparu'r cyngor sydd ei angen ar bobl ifanc 14-19 mlwydd oed i sicrhau eu bod yn dilyn y math cywir o gymwysterau ar eu cyfer;
- darparu ysgolion sy'n cefnogi anghenion eu holl ddysgwyr a'u cymunedau;
- hyrwyddo llyfrgelloedd a rhoi cyfres o raglenni ar waith gyda'r bwriad o sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn mwynhau darllen;
- cymryd y camau y cytunwyd arnynt dan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, gan gynnwys rhoi prosiectau ar waith o fewn y rhaglen gyfalaf; a
- dan nawdd y Tasglu Ysgolion, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu strategaeth gynaliadwy ar gyfer darparu addysg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I'R AFAEL A PHROBLEMAU'N GYNNAR



Pam mae hyn yn bwysig?

Drwy ddarparu ymyraethau cynnar a chymorth ataliol, dylem weld gwell canlyniadau i blant a theuluoedd, atal eu sefyllfaoedd rhag mynd yn fwy cymhleth a difrifol, a lleihau'r risg y bydd plant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Yn ôl y Gwasanaeth Cyngori Cenedlaethol ar Ofal, mae pobl ifanc sydd wedi treulio amser yn derbyn gofal yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn addysgol, cael mwy o gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, dioddef afiechyd ac wynebu digartrefedd a diweithdra.

Yn 2013-14, cynyddodd nifer ein teuluoedd sy'n elwa ar gymorth wedi'i ddarparu gan Cysylltu Teuluoedd a Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd o 133 i 184.

Er gwaethaf ein hymdrechion, yn 2013-14, cynyddodd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Plant mewn Angen a phlant yn cael eu hatgyfeirio gyda phryderon am esgeuluso neu gam-drin.

Mae gennym ddyletswydd gofal i gadw'r plant hyn yn ddiogel ond mae hyn yn golygu mwy o bwysau ariannol. Mae angen i ni ei gwneud yn haws i deuluoedd gael y cymorth sydd ei angen arnynt a chynyddu effeithiolrwydd dulliau ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yn cael mwy o ganlyniadau cadarnhaol.

Pa mor dda ydym ni'n llwyddo hyd yn hyn?

Rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon drwy:

- weithio gyda 1,171 o blant drwy Dechrau'n Deg yn 2013-4; roedd y cymorth hwn yn cynnwys rhaglenni magu plant, gofal plant, datblygu iaith ac ymweliadau iechyd;
- darparu cymorth dwys i 184 o deuluoedd cymhleth ac agored i niwed drwy gyfrwng Cysylltu Teuluoedd a Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd;
- drwy Teuluoedd yn Gyntaf, hyfforddi staff i ddarparu amrywiaeth o raglenni magu plant ar gyfer y blynyddoedd cynnar, blynyddoedd yr arddegau yn ogystal â chysiau penodol i deuluoedd â phlentyn/person ifanc ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig; a
- defnyddio prosesau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu wrth weithio gyda theuluoedd fel mai dim ond unwaith y mae angen iddynt ddweud eu straeon wrthym.

Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Hoffem gynyddu effeithiolrwydd cymorth ac ymyrraeth gynnar i atal materion rhag mynd yn gymhleth, a lleihau'r risg y bydd yn rhaid i blant dderbyn gofal.

Byddwn yn:

- defnyddio canolfannau cymunedol i ddod â gwasanaethau at ei gilydd i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i fynd i'r afael â'u problemau cyn gynted â phosibl;
- cydweithio â theuluoedd ac asiantaethau partner i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl i ddiwallu eu hanghenion; a
- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr, teuluoedd a phob partner i alluogi pobl i gael neu gadw tai sy'n diwallu eu hanghenion.

Sut y gallwch chi gymryd rhan?

Gall teuluoedd helpu drwy:

- sicrhau eu bod yn diwallu anghenion sylfaenol holl aelodau eu teulu cymaint â phosibl;

- ceisio cymorth yn gynnar os oes anghenion sylfaenol nad ydynt yn cael eu diwallu neu os oes problemau heb eu datrys yn y teulu;
- bod yn barod i ganfod atebion i broblemau gyda chymorth gweithwyr cymorth i deuluoedd neu wasanaethau mwy arbenigol;
a
- derbyn y cynnig o ddarpariaeth gofal Dechrau'n Deg pan gaiff ei chynnig.

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo gyda'n gilydd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd:

- ein mesurau ymyrraeth gynnar yn arwain at ostyngiad yn:
 - nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal;
 - nifer y plant mewn angen;
 - nifer y plant sydd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant;
- rhagolygon Plant sy'n Derbyn Gofal yn y fwrdeistref sirol yn gwella, a llai ohonynt yn gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig;
- pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gallu cael y cymorth a'r gefnogaeth barhaus sydd eu hangen arnynt;
- mwy o deuluoedd yn elwa ar weithio â'r timau Cymunedol Amlasiantaeth i gael cymorth yn gynharach; a
- mwy o deuluoedd a phlant ifanc yn manteisio ar y ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2015-16

Hoffem gyflawni mwy o newidiadau cadarnhaol i fwy o blant a theuluoedd.

Byddwn yn:

- sefydlu systemau i gefnogi ein trefniadau newydd Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth;
- ail-lansio'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd i sicrhau bod trefniadau partneriaeth yn fwy effeithiol;
- rhoi'r Strategaeth Parhad a Lleoli a'r Strategaeth Cymorth Cynnar ar waith i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a lleihau'r risg y bydd yn rhaid i blant dderbyn gofal; a
- gwella'r ffordd yr ydym yn cydweithio ag asiantaethau eraill i helpu i ganfod mwy o deuluoedd sydd ag angen cymorth a mynd i'r afael ag achos sylfaenol eu problemau.

BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA PEDWAR – CYDWEITHIO I HELPU POBL AGORED I NIWED¹ I AROS YN ANNIBYNNOL



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ein poblogaeth yn heneiddio – mae nifer y bobl 75 oed a hŷn yn cynyddu gan fwy na 4% y flwyddyn, ac mae Cymdeithas Alzheimer yn dweud y bydd un o bob tri o bobl yn dioddef o ddementia erbyn eu bod yn 85 oed.

Hefyd, mae nifer cynyddol o bobl ifanc â chyflyrau iechyd cymhleth yn byw i fod yn oedolion. Mae'n dda bod pobl yn byw'n hirach ac yn goroesi salwch anodd, ond mae hyn hefyd yn dod â heriau oherwydd galw cynyddol ar wasanaethau a'r costau uwch o ganlyniad i ateb y galw hwn.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i helpu a chefnogi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed pan fo angen hynny arnynt, ond byddwn yn canolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid, y trydydd sector, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau i ddarparu amgylchedd cefnogol yn yr ardal leol sy'n gallu helpu i atal dirywiad mewn amgylchiadau a allai arwain at golli annibyniaeth.

¹ At ddibenion y cynllun hwn, diffinnir pobl agored i niwed fel unigolion sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth os nad ydynt yn cael cyngor neu gymorth

Pa mor dda ydym ni'n llwyddo hyd yn hyn?

Gyda'n partneriaid, rydym eisoes wedi cyfrannu at y flaenoriaeth hon drwy:

- gefnogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol nag yn y flwyddyn gynt drwy gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Teleofal ac yn manteisio ar wasanaethau cymunedol, sydd wedi lleihau nifer y bobl sydd angen byw mewn cartrefi gofal;
- darparu dewis arall yn hytrach na lleoliad mewn ysbyty i 682 o bobl, drwy gyfrwng ein Tîm Adnoddau Cymunedol;
- sefydlu cynllun galluogi tymor byr drwy gyfrwng ein Gwasanaeth Gofal Cartref i gynorthwyo pobl â dementia i aros yn eu cartrefi eu hunain. Elwodd dros 100 o bobl ar ddefnyddio'r gwasanaeth hwn y llynedd; a
- sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl gofal sylfaenol yn seiliedig ar ymyrraeth gynnar gyda phwyslais ar adferiad a hybu lles meddyliol. Ymatebodd y gwasanaeth hwn i dros 1,000 o atgyfeiriadau y llynedd.

Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Hoffem alluogi pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, i ddatblygu gwasanaethau mewn ffordd sy'n cynorthwyo pobl i aros yn annibynnol yn hirach a pheidio â defnyddio gwasanaethau statudol oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol; a
- gweithio gyda'n holl bartneriaid presennol a phosibl i ddatblygu ystod o ddewisiadau llety a chymorth i bobl agored i niwed a phobl hŷn sydd ag angen cymorth i gyflawni neu gynnal annibyniaeth.

Sut gallwch chi gymryd rhan?

Gallwch helpu drwy:

- roi eich barn i ni am y math o gymorth a gwasanaethau y credwch y byddant o fudd ac am unrhyw newidiadau i flaenoriaethau a gwasanaethau a gynigiwn;
- gwirfoddoli, gan fod gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hollbwysig wrth ofalu am berthnasau, ffrindiau a chymdogion; a
- rhoi adborth i ni am ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yr ydych chi neu aelodau eich teulu'n ei dderbyn ar hyn o bryd.

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo gyda'n gilydd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd:

- cyfran y bobl hŷn 65+ oed sy'n byw'n annibynnol yn cynyddu;
- mwy o aelwydydd sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref;
- mwy o bobl wedi cynnal eu hannibyniaeth oherwydd cymorth gwasanaethau Gofal a Thrwsio;
- mwy o bobl yn cael dewis arall yn hytrach na lleoliad mewn ysbyty, drwy gyfrwng ein Tîm Adnoddau Cymunedol;
- mwy o ofalwyr yn dweud bod gwybodaeth a chymorth i ofalwyr yn gwella;
- nifer y bobl sydd wedi cael eu rhyddhau gartref gyda phecynnau gofal tymor byr yn cynyddu; a
- chyfartaledd nifer y dyddiau a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn lleihau.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2015-16

Hoffem sicrhau bod gofal a chymorth effeithiol yn cael eu rhoi i bobl pan fo ei angen.

Byddwn yn:

- cynhyrchu'r ddogfen atal a lles, ac ymgynghori arni, gan gynnwys cydlynu'r gefnogaeth, y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael mewn cymunedau lleol;
- cynyddu'r amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth sydd ar gael i ofalwyr, a gwella pa mor rhwydd yw cael gafael arnynt;
- datblygu fframwaith ansawdd rhanbarthol i fonitro a gwella ansawdd gofal;
- cymryd camau rhesymol i atal digartrefedd yn unol â dyletswyddau cryfach dan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 newydd;
- helpu pobl agored i niwed i gadw eu hurddas ac aros mor annibynnol â phosibl yn y llety sy'n bodloni eu hanghenion orau;
- gwneud mwy i ddatblygu dewisiadau atal argyfyngau, cefnogaeth a llety i bobl ag anghenion iechyd meddwl sy'n hybu annibyniaeth ac yn eu hatal rhag cael eu derbyn i'r ysbyty;
- parhau i ddatblygu dau gynllun gofal ychwanegol newydd ar draws y fwrdeistref;
- parhau i weddnewid gwasanaethau gofal cartref; a
- sefydlu model gweithredol integredig ar gyfer y Tîm Cymorth Cymunedol Anableddau Dysgu.

BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA PUMP – CYDWEITHIO I YMDRIN Â PHROBLEMAU IECHYD AC ANNOG FFYRDD IACH O FYW



Pam mae hyn yn bwysig?

Mae ystadegau cenedlaethol yn dangos bod rhannau o'r fwrdeistref sirol ymysg y lleiaf iach yng Nghymru, ac mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol yn parhau i fodoli yn y fwrdeistref.

Mae dros hanner y boblogaeth dros bwysau neu'n ordew, a llai na thraean yr oedolion yn gorfforol weithgar ar bump neu fwy o ddiwrnodau yr wythnos, a thua chwarter yr oedolion yn dweud eu bod yn yfed mwy na'r lefelau a argymhellir o alcohol o leiaf unwaith yr wythnos. Mae disgwyliad oes dynion a menywod yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.

Yn galonogol, rydym yn gweld rhai gwelliannau gan fod ein cyfraddau ysmegu a goryfed mewn pyliau'n lleihau. Fodd bynnag, maent yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Rydym yn falch, o ganlyniad i'n gwaith gyda'n partneriaid Hamdden HALO a rhaglen ailwampio sylweddol yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, bod mwy o bobl erbyn hyn yn ymweld â'n canolfannau chwaraeon a hamdden. Rydym hefyd yn falch bod mwy o sefydliadau bwyd yn cydymffurfio i raddau helaeth â safonau hylendid bwyd.

Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n bodoli a byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu mwy o fesurau ataliol a datrysiadau lles. Byddwn hefyd yn cydweithio â'n partneriaid i helpu dinasyddion i helpu eu hunain i wella eu lles corfforol a meddyliol a gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u ffordd o fyw.

Pa mor dda ydym ni'n llwyddo hyd yn hyn?

Drwy gydweithio, yn 2013-14 llwyddwyd i gyflawni'r canlynol:

- aeth plant i nofio, gan dalu ac yn ddi-dâl, cyfanswm o 51,159 gwaith;
- aeth pobl hŷn i nofio dan y fenter nofio am ddim gyfanswm o 84,904 gwaith, 7.3% yn uwch na'r targed;
- roedd nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol fesul 1000 o'r boblogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn 9588, i fyny o 8914 yn 2012-13;
- cafodd y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff gyfanswm o 2162 o atgyfeiriadau, i fyny o 882 yn 2012-13; ac
- anogodd ein rhaglen 'Chwarae am Oes' 5244 o blant i fod yn weithgar, bod yn greadigol, cymryd rhan a chael hwyl yn chwarae;
- gostyngiad yng nghyfraddau ysmegu a goryfed mewn pyliau.

Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Hoffem weld poblogaeth iachach.

Byddwn yn:

- cyfleu negeseuon am fwyta'n iach yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, megis ysgolion, sefydliadau ieuencid, gwasanaethau hamdden a grwpiau cymunedol;
- cydweithio â phartneriaid i roi sylw i faterion blaenoriaeth megis lles meddyliol, gordewdra yn ystod plentyndod, alcohol, ysmegu a chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc; a
- gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu gwasanaethau a chyfleoedd sy'n annog ac yn hybu gweithgarwch corfforol gydol oes, gan gynnwys defnyddio ein Hawliau Tramwy, llwybrau beicio, llwybrau cymunedol a mannau gwyrdd yn y modd gorau posibl.

Sut y gallwch chi gymryd rhan?

Gallwch helpu drwy:

- gymryd cyfrifoldeb am eich iechyd a'ch lles eich hun;
- cymryd camau i wneud mwy o ymarfer corff drwy fynychu eich cyfleuster hamdden lleol neu ymuno â chlwb neu grŵp lleol;
- ymrwymo i roi'r gorau i ysmegu, yfed llai o alcohol a bwyta'n iachach; a
- gofyn i'ch meddyg teulu am y cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff neu am lyfrau ar bresgripsiwn.

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo gyda'n gilydd?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd:

- nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y fenter Parth Gweithgar Teuluoedd yn cynyddu;
- dangosyddion iechyd i ddinasyddion yn y fwrdeistref sirol yn gwella, gan gynnwys:
 - canran y boblogaeth sy'n ysmegu'n lleihau;
 - canran y boblogaeth sydd dros bwysau neu'n ordew yn lleihau;
 - canran yr oedolion sy'n goryfed o leiaf unwaith yr wythnos yn lleihau; a
 - chanran yr oedolion sy'n cyflawni'r lefelau a argymhellir o weithgarwch corfforol yn cynyddu; ac
- yr amrywiad (mewn blynyddoedd) o ran disgwyliad oes ar draws ein wardiau yn lleihau.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2015-16

Rydym am annog mwy o bobl ledled y fwrdeistref sirol i fyw'n iach a gweld pobl ym mhob grŵp o'r boblogaeth yn cymryd mwy o ran mewn gweithgarwch corfforol.

Byddwn yn cydweithio ag iechyd cyhoeddus a phartneriaid eraill i:

- sicrhau bod ein hysgolion yn bodloni safonau Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013;
- parhau i gyflwyno a gweithredu system arlwyio heb arian parod ar draws ein hysgolion;
- drwy'r fenter Parth Gweithgar Teuluoedd, hybu maeth, gweithgarwch corfforol a pherthnasoedd mewn teuluoedd ar gyfer newidiadau cadarnhaol i ffordd o fyw;
- hyrwyddo'r Cynllun Dewisiadau Iach gyda busnesau ledled y fwrdeistref sirol i gynnig dewisiadau iach i gwsmeriaid ar fwydlenni busnesau bwyd;
- parhau i gydweithio â phartneriaid tuag at arolygiadau ar y cyd o fannau sy'n gwerthu cynhyrchion â chyfyngiad o ran oed megis tybaco ac alcohol a fydd yn helpu i ymdrin ag ymddygiad niwsans sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol;

- datblygu a darparu cyngor ac addysg i fusnesau ynglŷn â materion megis gwerthu cynhyrchion â chyfyngiad oed a safonau hylendid bwyd;
- gweithredu'r rhaglen chwaraeon ysgolion cynradd ac uwchradd genedlaethol er mwyn cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol;
- cefnogi partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i wneud mwy i ddatblygu prosiectau targed i annog gwell iechyd gan ganolbwyntio ar Gwm Llynfi;
- datblygu gwasanaethau a chyfleoedd sy'n annog ac yn hybu gweithgarwch corfforol gydol oes, yn enwedig ymhlith grwpiau wedi'u tangynrychioli, drwy weithio mewn partneriaeth â Hamdden HALO ac amrywiaeth o bartneriaid cymunedol;
- parhau i ddarparu'r Rhaglen Genedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff mewn partneriaeth â Hamdden HALO i helpu i leihau lefelau gordewdra ac annog gwell rheoli pwysau ledled y fwrdeistref sirol;
- cydlynu'r rhaglen Caru Cerdded i gefnogi rhwydweithiau cerdded cymunedol;
- datblygu mapiau teithio llesol a chefnogi mentrau cerdded a beicio a fydd yn cyfrannu at roi'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) ar waith; a
- nodi a hyrwyddo mentrau newydd sy'n cefnogi iechyd a lles gweithwyr.

BLAENORIAETH AR GYFER GWELLA CHWECH – CYDWEITHIO I DDEFNYDDIO EIN HADNODDAU CYSTAL Â PHOSIBL



Pam mae hyn yn bwysig?

Erbyn 2014-15, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud arbedion gwerth mwy na £27 miliwn oherwydd gostyngiadau mewn cyllid gan y llywodraeth genedlaethol a lleihad yn ein hincwm o ffioedd, taliadau a'n buddsoddiadau. Yn anffodus, mae'n ymddangos y bydd ein sefyllfa ariannol anodd yn parhau am nifer o flynyddoedd eto. Yn ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, rydym yn amcangyfrif y bydd yn rhaid i ni wneud arbedion pellach gwerth hyd at £49 miliwn rhwng 2015-16 a 2018-19. Mae toriadau o'r maint hwn i'r gyllideb yn her sylweddol i'r Cyngor; bydd rhaid i ni wneud llawer o benderfyniadau anodd ynglŷn â pha wasanaethau y gallwn eu cynnal a pha rai na allwn eu cynnal. Yn amlwg, ein bwriad yw y bydd y gostyngiad mewn cyllid yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar y gwasanaethau a ddarparwn i'n dinasyddion. Felly, rydym yn ymroddedig i ddod o hyd i fwy na hanner ein harbedion oddi mewn i'r Cyngor drwy ddefnyddio'r adnoddau a fydd ar gael i ni yn y ffordd orau bosibl. Bydd yn rhaid i'r hanner arall ddod o newidiadau i'n polisïau a'r ffordd y darperir rhai gwasanaethau, yn ogystal â lleihau rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn

eu darparu ar hyn o bryd, neu eu tynnu'n ôl.

Bydd yn rhaid i ni leihau maint ein gweithlu oherwydd ein sefyllfa ariannol, ond byddwn yn ceisio cyfyngu ar nifer y diswyddiadau gorfodol gymaint â phosibl. Byddwn hefyd yn buddsoddi yn y gweithlu i sicrhau bod gan ein gweithwyr y sgiliau a'r arbenigedd i fwrw ymlaen â blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella yn y cyfnod anodd hwn.

Pa mor dda ydym ni'n llwyddo hyd yn hyn?

Drwy gydweithio, rydym wedi:

- arbed £27 miliwn o refeniw rhwng 2011-12 a 2014-15;
- sicrhau £5.5 miliwn o dderbyniadau cyfalaf o werthu asedau dros yr un cyfnod;
- sefydlu ein rhaglen gweddnewid, sef "Rhadlen Newid Pen-y-bont ar Ogwr";
- gwella ein cyfathrebu â dinasyddion drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol;
- lleihau'r amser a gymerwn i brosesu hawliadau newydd am fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor dros 30%; a
- sicrhau gwell gwerth am arian o'n gweithgareddau comisiynu a chaffael drwy ail-drafod contractau a drwy gydweithredu.

Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2017?

Hoffem i bobl yn y fwrdeistref sirol fod yn ffyddiog bod y Cyngor yn deg, yn uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn effeithlon.

Byddwn yn:

- cyflawni'r arbedion a nodwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- bwrw ymlaen ag agenda gweddnewid y Cyngor drwy roi Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr ar waith;
- archwilio ffyrdd arloesol a hyblyg o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys comisiynu;
- gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n technoleg;
- datblygu gwaith datblygu sefydliadol cryfach i wella sgiliau gweithwyr a chaniatáu mwy o hyblygrwydd; a
- gwella ein cyfathrebu â dinasyddion i ddeall eu hanghenion a'i gwneud yn haws iddynt ddefnyddio ein gwasanaethau.

Sut y gallwch chi gymryd rhan?

Gallwch helpu drwy:

- ddweud wrthym pa un a ydych yn teimlo'n hyderus bod y Cyngor yn deg, yn uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn effeithlon;
- rhoi gwybod i ni pa wasanaethau yw'r pwysicaf i chi a'ch cymuned, a sut y gellid lleihau'r galw am wasanaethau;
- rhannu â ni beth yr ydych o'r farn ein bod yn ei wneud yn iawn, er mwyn i ni allu lledaenu arfer da. Os oes gennych bryderon, dywedwch wrthym beth ydynt er mwyn i ni allu ystyried sut y gallem wneud yn well;
- rhoi gwybod i ni am eich profiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor er mwyn i ni gael gwybod pa un a ydym ni'n llwyddo i'w gwneud yn haws i'n dinasyddion, ac fel y gallwn weithredu os nad ydym; a
- rhoi gwybod i ni os ydych chi wedi gweld arferion sy'n wastraffus yn eich barn chi, fel y gallwn archwilio'r hyn yr ydym yn ei wneud a phenderfynu a ellir gwneud gwelliannau.

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd:

- arbedion a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni;
- asedau a ryddhawyd yn cynhyrchu'r derbyniadau cyfalaf gofynnol;
- y llety sydd ar gael gennym yn cael ei defnyddio i'r eithaf;
- ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd mwy hyblyg a chost-effeithiol drwy reoli contractau a defnyddio e-gaffael;
- gan staff yr ystod o sgiliau i gynorthwyo i gyflawni agenda gweddnewid y Cyngor;
- mwy o ddinasyddion yn rhoi adborth cadarnhaol am gyfathrebu, ymgysylltu, cael gaffael ar wasanaethau a gwerth am arian.

Ein hymrwymiaidau ar gyfer 2015-16

Mae angen i ni arbed £11.2m yn 2015–16 a pharatoi ar gyfer arbedion pellach yn y blynyddoedd i ddod, gan barhau i sbarduno gwelliannau yn ein meysydd blaenoriaeth.

Byddwn yn:

- gwireddu'r arbedion a gynlluniwyd a nodir yng nghyllideb 2015-16;
- darparu'r prosiectau a gynhwysir yn Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr;
- gwella effeithlonrwydd drwy resymoli a gwneud y defnydd gorau o systemau TGCh a rhaglenni meddalwedd;
- datblygu cynigion i ddarparu mwy o ddewisiadau hunanwasanaeth i ddinasyddion ar gyfer defnyddio gwasanaethau'r Cyngor;
- datblygu mecanweithiau effeithiol i wella ein dealltwriaeth o farn dinasyddion;
- archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn parhau i glywed eu llais;
- gweithredu'r strategaeth e-gaffael a rheoli contractau i wella effeithlonrwydd;
- cymryd y camau y cytunwyd arnynt ar gyfer cynllun Parc Afon Ewenni;
- ymestyn cyfleoedd dysgu electronig i staff er mwyn datblygu sgiliau a hyblygrwydd gweithlu'r Cyngor;
- gwneud mwy i resymoli ystâd weithredol y Cyngor i leihau costau llety;
- bwrw ymlaen â'n strategaeth gwaredu asedau gyda'r nod o sicrhau o leiaf £6 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf; a
- chyflwyno system olrhain cydymffurfiaid i wneud prosesau rheoli cyfleusterau ein hadeiladau'n fwy effeithiol.

ATODIAD 1: DANGOSYDDION LLWYDDIANT

(Noder mai targedau dros dro yw targedau 2015-16. Gellid eu newid yng ngoleuni data diwedd blwyddyn 2014-15. Noder hefyd bod rhai dangosyddion cenedlaethol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i'w defnyddio yn 2015-16. Efallai y bydd angen diwygio rhai o'r dangosyddion a gynhwysir yn y rhestr hon yn dilyn yr adolygiad.)

BLAENORIAETH UN – CYDWEITHIO I DDATBLYGU'R ECONOMI LEOL				
Dangosydd	Gwirioneddol 2012-13	Gwirioneddol 2013-14	Targed 2014-15	Targed 2015-16
Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth	68.9% (Arolwg o'r Llafurlu, ONS)	72.1%	cynyddu	cynyddu
Canran y bobl ifanc 16-24 mlwydd oed sydd mewn cyflogaeth	47.1% (Arolwg o'r Llafurlu, ONS)	50.1%	cynyddu	cynyddu
Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen	£14,489 (2011, ONS)	£15,593 (2014, ONS)	cynyddu	cynyddu
Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen	£14,007 (2011, ONS)	£14,623	cynyddu	cynyddu
Canran yr holl blant dan 16 oed sy'n byw ar aelwydydd o oedran gweithio lle nad os unrhyw un mewn cyflogaeth	17.5% (2012, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)	20% (2013, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)	lleihau	lleihau
Canran y plant sy'n byw ar aelwydydd ag incwm is na 60% o'r canolrif	22.7% (2011, Uned Tlodi Plant)	22.4%	lleihau	lleihau
Nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith	4.0% (Mawrth 2013, NOMIS)	3.1%	lleihau	lleihau
Canran: y prif ffyrdd (A), lonydd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a lonydd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	(A) 5.7% (B) 7.7% (C) 11.8%	(A) 5.0% (B) 6.1% (C) 11.4%	A) 6.96% (B) 9.88% (C) 12.82%	(A) 6% (B) 8% (C) 12%
Canran holl hyd yr hawliau tramwy y mae'n hawdd i aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio	90%	83%	91%	92%
Nifer yr adeiladau gwag yng nghanol trefi	Pen-y-bont ar Ogwr 66 Maesteg 17 Porthcawl 12	Pen-y-bont ar Ogwr 65 Maesteg 19 Porthcawl 17	lleihau	lleihau
Arwynebedd llawr ychwanegol a grëwyd drwy gyfrwng y Fenter Treftadaeth Treflun a'r Grant Gwella Trefi	am	MTT 288m ² GGT 340m ²	800m ²	800m ²
Cyfradd llwyddiant gyffredinol Dysgu Oedolion yn y Gymuned	am	75%	75%	77%
Nifer y busnesau cofrestredig TAW/Talu Wrth Ennill yn y Fwrdeistref	4,075	4,000	cynyddu	cynyddu

BLAENORIAETH DAU – CYDWEITHIO I GODI DYHEADAU A SBARDUNO CYFLAWNIAD ADDYSGOL				
Dangosydd	Gwirioneddol 2012-13	Gwirioneddol 2013-14	Targed 2014-15	Targed 2015-16
Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst y flwyddyn gynt, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	50.7% ^{*2}	52.3%	60%	65%
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	93.7%*	93.5%*	94.6%	95.8%
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	92.0%*	92.5%*	93%	94.9%
Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar 31 Awst y flwyddyn gynt, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	0.3%*	0.4%	0.45%	0.1% Dros Dro
Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd a bennwyd mewn Asesiad Athro	80.6%*	82.6%	84.4%	85%
Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd a bennwyd mewn Asesiad Athro	67.1%*	73.5%	78.5%	79.7% Dros Dro
Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 4: Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 2 ym mhob un o'r pynciau Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4	49.9%*	50.6%	55.3%	60.3% Dros Dro
Dangosydd deilliannau'r cyfnod sylfaen: Canran y disgyblion, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyflawni o leiaf Ddeiliant 5 (y deiliant a ddisgwylir) mewn asesiadau athro	81.8%*	82.3%	82.1%	86.9% Dros Dro
Maint y bwch mewn cyraeddiadau addysgol rhwng disgyblion 15+ â hawl i gael prydau ysgol am ddim a rhai nad oes ganddynt yr hawl hon (wedi'u mesur yn ôl dangosydd cynhwysol Lefel 2)	31.1%*	31.7%	24%	24% Dros Dro
Pobl ifanc sy'n gadael ysgolion yr awdurdod ar ôl blwyddyn 11 y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	6.4%	3.7%	4%	lleihau
Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y	3,820	4,182	4,200	4,250

² Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i'r flwyddyn ysgol flaenorol.

flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth				
Canran y plant dan 5 oed sy'n aelodau o'r gwasanaeth llyfrgelloedd	26%	n/a	27.5%	28%

BLAENORIAETH TRI – GWEITHIO GYDA PHLANT A THEULUOEDD I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU'N GYNNAR				
Dangosydd	Gwirioneddol 2012-13	Gwirioneddol 2013-14	Targed 2014-15	Targed 2015-16
Nifer y teuluoedd sy'n cael budd o'r cymorth gweithio integredig a ddarperir gan Cysylltu Teuluoedd sy'n mabwysiadu dull gwaith 'tîm o amgylch y teulu'	44	34	61	63
Nifer y teuluoedd sy'n cael budd o'r cymorth gweithio integredig a ddarperir gan Wasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd sy'n mabwysiadu dull gwaith 'tîm o amgylch y teulu'	15	72	100	110
Nifer y plant mewn angen	918 (ar 31/3/13)	967	915	750
Nifer y plant sydd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	161 (ar 31/3/13)	179	150	145
Plant sy'n derbyn gofal fel canran o blant 0-17 oed	1.34% (ar 31/3/13)	1.4%	1.1%	1.3%
Sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog Plant sy'n Derbyn Gofal 16 mlwydd oed mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol	273 ³	202	300	217
Canran yr holl ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar 31 Awst y flwyddyn gynt, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy	6.25%*	0%*	5%	1.1%
Canran y bobl ifanc plant a arferai dderbyn gofal ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw yn 19 oed	100%	82.6%	90%	95
Canran y bobl ifanc a arferai dderbyn gofal ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, y gwyddys eu bod mewn llety addas, heb fod yn llety argyfwng, yn 19 oed	93.3%	89.5%	100%	100%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth ac sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn	10.6%	9%	9%	12%
Canran y bobl ifanc a arferai dderbyn gofal ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, y gwyddys eu bod	73.3%	31.6%	85%	70%

³ Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i 'r flwyddyn ysgol flaenorol.

mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed				
Nifer y plant sy'n cael budd o'r rhaglen Dechrau'n Deg	950	1,171	1,421	1586
BLAENORIAETH PEDWAR – CYDWEITHIO I HELPŪ POBL AGORED I NIWED I AROS YN ANNIBYNNOL				
Dangosydd	Gwirioneddol 2012-13	Gwirioneddol 2013-14	Targed 2014-15	Targed 2015-16
Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a hŷn) a gefnogir yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a hŷn ar 31 Mawrth	86.1	83.2	<83	<81
Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a hŷn) a gefnogir gan yr awdurdod mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a hŷn ar 31 Mawrth	19.86	18.5	<19	<18.5
Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn	1.96	0.9	<2.75	<2.5
Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd gyda risg wedi'i reoli	87.36%	100%	88%	89%
Canran y cleientiaid sy'n oedolion a gefnogir yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	88%	88.33%	>88.5%	>88.5%
Canran y cleientiaid Teleofal sy'n dweud bod y gwasanaeth yn ei gwneud yn haws iddynt ymdopi yn eu cartrefi eu hunain	94%	94%	95%	95%
Nifer y rhai sy'n derbyn gwasanaeth Tîm Adnoddau Cymunedol (gwasanaethau canolraddol) ac sydd wedi cael dewis arall yn hytrach na lleoliad mewn ysbyty	697	682	750	820
Cyfartaledd nifer y dyddiau a gymer i gyflenwi grant Cyfleusterau i'r Anabl i blant a phobl ifanc	295	349	295	295
Cyfartaledd nifer y dyddiau a gymer i gyflenwi grant Cyfleusterau i'r Anabl i oedolion	196	222	196	196
Canran y gofalywyr sy'n dweud bod gwybodaeth a chymorth i ofalywyr yn gwella yn y Fwrdeistref Sirol	amh	Datblygwyd arolwg	35%	40%
Nifer y bobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac nad oes angen gwasanaeth gofal personol parhaus arnynt, yn dilyn gwasanaeth galluogi tymor byr	mesur newydd	mesur newydd	Sefydlu llinell sylfaen	I'w bennu'n seiliedig ar ffigurau 2014-15
Canran yr holl aelwydydd a allai fod wedi mynd yn ddiartref lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis	52.89%	61.5%	61%	67%
Nifer yr aelwydydd digartref â phlant dibynnol mewn llety gwely a brecwast	amh	8	8	7
Canran y bobl sydd wedi cynnal eu hannibyniaeth am chwe mis fel cyfran o'r bobl a gafodd gymorth gwasanaethau Gofal a Thrwsio (ariannwyd drwy gyfrwng polisi Adnewyddu Tai'r	amh	100%	96%	96%

Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl)				
---	--	--	--	--

BLAENORIAETH PUMP – CYDWEITHIO I YMDRIN Â MATERION IECHYD AC ANNOG FFYRDD IACH O FYW				
Dangosydd	Gwirioneddol 2012-13	Gwirioneddol 2013-14	Targed 2014-15	Targed 2015-16
Canran y boblogaeth (16 oed a hŷn) sy'n ysmegu	23%	21 %	20%	20%
Canran yr oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew	59%	58%	lleihau	lleihau
Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi gwneud ymarfer corff ar bum diwrnod neu fwy yn yr wythnos ddiwethaf	30%	29%	cynyddu	cynyddu
Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi goryfed ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf	30%	26%	lleihau	lleihau
Amrywiad (mewn blynyddoedd) o ran disgwyliad oes iach ar draws ein wardiau Gwryw Benyw	Dim diweddariad ar gael ers data 2009	Dim diweddariad ar gael ers data 2009	lleihau	lleihau
Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn cael triniaeth am unrhyw salwch meddwl	13%	12%	lleihau	lleihau
Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth, lle bydd yr ymwelydd yn gwneud ymarfer corff	8,914	9,588	9,400	9,450
Nifer y bobl a gymerodd ran yn rhaglen y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff	mesur newydd	1161 (404 yn cwblhau 16 wythnos)	1170 (395 yn cwblhau 16 wythnos)	1170 (395 yn cwblhau 16 wythnos)
Nifer y Teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni Parth Gweithgar Teuluoedd	52	125	100	120
Ysgolion yn cymryd rhan yn y rhaglen chwaraeon genedlaethol				
• Cynradd	87% (11,644 yn cymryd rhan)	87% (10,497 yn cymryd rhan)	92% (10,497 yn cymryd rhan)	95% (10,000 yn cymryd rhan)
• Uwchradd	100% (69,911 yn cymryd rhan)	100% (71,352 yn cymryd rhan)	100% (62,919 yn cymryd rhan)	100% (60,000 yn cymryd rhan)
Canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio i raddau helaeth â safonau hylendid bwyd	83.56%	88%	80%	85%
Nifer y busnesau sy'n cefnogi'r Dyfarniad Dewisiadau Iach	amh	amh	1	3

Nifer y gweithwyr sy'n cymryd rhan mewn mentrau a gynhelir gan y Cyngor i gefnogi eu hiechyd a'u lles	amh	amh	amh	Sefydlu llinell sylfaen
---	-----	-----	-----	-------------------------

BLAENORIAETH CHWECH – CYDWEITHIO I DDEFNYDDIO EIN HADNODDAU CYSTAL Â PHOSIBL				
Dangosydd	Gwirioneddol 2012-13	Gwirioneddol 2013-14	Targed 2014-15	Targed 2015-16
Gwerth yr arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd	£3,968k	£3,700k	£13,300k	£11,225k
Cynnydd % yn yr ymatebion gan bob cynulleidfa darged drwy'r panel dinasyddion	Mesur newydd	Mesur newydd	Sefydlu llinell sylfaen	Cynnydd 5%
Canran y dinasyddion a arolygwyd a ddywedodd fod eu gofynion unigol yn cael eu bodloni wrth iddynt gysylltu â'r Cyngor	Cwestiwn heb ei ofyn	63%	52%	60%
Arbedion £ ym maes TGCh drwy resymoli gwasanaethau a rhaglenni cymorth	amh	£0k	£122k a £50k	£52k
Cynnydd canrannol yn nifer y dogfennau a reolir drwy gyfrwng Rheoli Cofnodion Data Electronig	Mesur newydd (rheolwyd 1,247,224 o ddogfennau drwy gyfrwng Rheoli Cofnodion Data Electronig)	amh	Dim Targed wedi'i osod – mesur newydd	Cynnydd 10% o'i gymharu â 2012/13
Derbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd drwy ryddhau asedau	£685k	£166k	Dim Targed wedi'i osod – £3.9m wedi'i gyflawni ym mis Rhagfyr 2014	£6m
Arbedion refeniw a gafwyd drwy waredu asedau	£113k	£0k	Dim Targed wedi'i osod – £92k wedi'i gyflawni ym mis Rhagfyr 2014	£400k
Cyfanswm y lle swyddfa defnyddiadwy fesul gweithiwr yn ein swyddfeydd craidd sy'n gysylltiedig â'r prosiect i wneud y defnydd gorau o'r lle (m ²)	11.7m ²	11.7m ²	11.7m ²	10.0m ²

Cynnydd yng nghanran y gweithwyr sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu	7.01%	27.8%	Dim Targed wedi'i osod	30%
---	-------	-------	------------------------	-----

GEIRFA

CMGP	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr – y mudiad ymbarél sy'n cefnogi mudiadau gwirfoddol yn y fwrdeistref
CBSP	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Rhaglen Newid Pen-y-bont ar Ogwr	Rhaglen strategol i sbarduno newid ar raddfa fawr ym mhopeth a wna'r Cyngor, o gynnal busnes o ddydd i ddydd i'r penderfyniadau mawr am wasanaethau a chyllid
PCCP	Partneriaeth Cyswllt Cyflogwyr Pen-y-bont ar Ogwr
Derbyniadau cyfalaf	Hwn yw'r incwm o werthu asedau cyfalaf. Ceir ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd, ond ni cheir ei ddefnyddio i ariannu gwariant refeniw
Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Plant y gwyddys eu bod yn wynebu risg ac y mae cynllun amddiffyn plant ar waith ar eu cyfer
Plant mewn angen	Plant sy'n annhebygol o gyflawni iechyd a datblygiad boddhaol heb i wasanaethau gael eu darparu. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gofal i ddiogelu'r plant hyn a hybu eu lles
Canolfan Gymunedol	Mae'r rhain wedi'u lleoli o gwmpas y fwrdeistref sirol ac yn cynnwys gweithwyr cymorth i deuluoedd, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, swyddogion lles addysgol ac ymwelwyr iechyd
Cysylltu Teuluoedd	Gwasanaeth amlasiantaeth sy'n bwriadu gweithio'n fwy effeithiol gyda theuluoedd sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf hirdymor a chymhleth, ac sy'n defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau

Grant Cyfleusterau i'r Anabl	Mae'r grantiau hyn yn gallu helpu i dalu am addasu cartref er mwyn i'r meddiannydd allu parhau i fyw yno
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Teuluoedd yn Gyntaf	Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n pwysleisio atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd, yn enwedig rhai sy'n byw mewn tlodi, drwy ymateb yn gydlynol
Dechrau'n Deg	Menter Llywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd a phlant dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n darparu ymweliadau iechyd dwys, darpariaeth gofal plant rhan-amser am ddim, datblygiad iaith cynnar a rhaglenni magu plant
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch
Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario	Faint o arian sydd ar gael i aelwydydd i'w wario neu ei gynilo
GYC	Gwerth Ychwanegol Crynswth, sy'n mesur maint yr economi'n seiliedig ar werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal
Hamdden HALO	Menter gymdeithasol sy'n cynnal nifer o ganolfannau hamdden ar ran cyngorau
Anghydraddoldebau iechyd	Gwahaniaethau mewn statws iechyd rhwng unigolion neu grwpiau, wedi'u mesur, er enghraifft, yn ôl disgwyliad oes, marwolaeth a salwch
Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd	Darparu cymorth arbenigol i deuluoedd ar draws ardal Bae'r Gorllewin (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr)

Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd	Ffordd o ddarganfod pa gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar blentyn a/neu ei deulu
Cyfnod Allweddol 1 (CA1)	Y blynyddoedd ysgol a elwir yn Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod Allweddol 2 (CA2)	Y blynyddoedd ysgol a elwir yn Flwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6
Cyfnod Allweddol 3 (CA3)	Y blynyddoedd ysgol a elwir yn Flwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9
Cyfnod Allweddol 4 (CA4)	Y ddwy flynedd o addysg ysgol, sy'n cynnwys TGAU ac arholiadau eraill, a elwir yn Flwyddyn 10 a Blwyddyn 11
Cronfa Fuddsoddi Leol	£1.2M o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd a ddefnyddir i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau yn y fwrdeistref.
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009	Un o ddeddfau Cymru sy'n arwain awdurdodau lleol wrth iddynt wella gwasanaethau a gwneud gwaith cynllunio strategol
Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI)	Bwrdd partneriaeth amlasiantaeth o amrywiaeth o bartneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, gan gynnwys y Cyngor
Plant sy'n Derbyn Gofal	Yn gyffredinol, mae'n golygu plant sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol, sy'n golygu eu bod mewn gofal neu'n cael llety mewn amgylchedd diogel y tu allan i gartref y teulu
Incwm canolrif	Y lefel incwm ganol ar restr symudol o incwm o'r isaf i'r uchaf
Strategaeth Ariannol Tymor Canolig	Mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei adnoddau dros y pedair blynedd nesaf i'w gynorthwyo i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol.

NEET	Ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
Y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff	Cynllun o atgyfeiriadau gan feddygon teulu sy'n canolbwyntio ar helpu pobl â chyflyrau iechyd penodol i fod yn iach ac yn egnïol.
Refeniw (gwariant)	Mae hyn yn cynnwys pob gwariant ar gostau cynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd, megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau, cyfarpar, cyflenwadau cyffredinol a gwasanaethau
RoWIP	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Diogelu	Mae hyn yn cyfeirio at ddulliau o amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
Tîm o Amgylch y Teulu	Proses sy'n dod â gwahanol asiantaethau at ei gilydd i ddatblygu pecyn cymorth amlasiantaeth i deulu
Teleofal	System sy'n cysylltu synwryddion, drwy gyfrwng uned larwm cymunedol sydd wedi'i gosod yn y cartref, â chanolfan fonitro ganolog
Y trydydd sector	Y rhan o'r economi sydd wedi'i gwneud o fudiadau anllywodraethol a dielw, megis elusennau, grwpiau cymunedol a chydweithfeydd
Pobl agored i niwed	At ddiben y Cynllun Corfforaethol, diffinnir pobl agored i niwed fel unigolion sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth os nad ydynt yn cael cyngor neu gymorth